


Tasg 2

Adeiladau Cymru

Mewn grŵp, chwiliwch am wybodaeth am 4 adeilad diddorol yng Nghymru. Does dim rhaid i'r adeiladau fod yn "wahanol" ond dylen nhw fod yn eitha adnabyddus.

Ysgrifennwch 3 chliw am bob un.
Chwiliwch am lun hefyd.

1.	
2.	
3.	




Yna, rydych chi'n mynd i gymryd rhan mewn cwis dosbarth. Dyma sut mae'n gweithio:

Mae pob grŵp yn dîm.
Yn eich tro, darllenwch y tri chliw.

Os yw grŵp arall yn gallu adnabod yr adeilad ar ôl un cliw, mae'n cael 4 marc; os yw'n adnabod yr adeilad ar ôl dau gliw, mae'n cael tri marc ac ati, e.e.

Ewch i'r dudalen nesaf.

Mae'r adeilad yma ar ben mynydd.	→	4 marc os yw tîm arall yn dyfalu'n gywir.
Mae trê'n bach yn arwain at yr adeilad yma.	→	3 marc os yw tîm arall yn dyfalu'n gywir.
Mae toiledau, caffi a chanolfan wybodaeth yn yr adeilad yma.	→	2 marc os yw tîm arall yn dyfalu'n gywir.
Dyma lun o'r adeilad: 	→	1 marc os yw tîm arall yn dyfalu'n gywir.

Llun: [The new summit cafe on Snowdon - geograph.org.uk - 1634621](https://www.geograph.org.uk/photo/1634621)
- [Colin Park](#) © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution-Share Alike 2.0 Generic](#)

Beth am wneud cyflwyniad PowerPoint ar gyfer y cwis, e.e. gyda'r cwestiynau'n ymddangos fesul un ar y sgrin a gyda'r llun yn ymddangos ar y sgrin olaf?

Gallwch chi wneud cwis am adeiladau eraill ar draws y byd os ydych chi eisiau.